# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR GYMUNEDAU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD IAU, 15 MEDI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd R A Clay (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| U C Clay | A M Cook | N J Davies |
| T J Hennegan | M B Lewis | R D Lewis |
| G J Tanner | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| D Evans | Rheolwr Busnes Tai |
| C Morgan | Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi |
| S Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: Y V Jardine

16 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd T J Hennegan – Personol – Cofnod Rhif 19 – Strategaeth Rhagor o Gartrefi – Rwy'n un o denantiaid sicr y cyngor.

Y Cynghorydd G H Tanner – Personol – Cofnod Rhif 19 – Strategaeth Rhagor o Gartrefi – Rwy'n un o denantiaid sicr y cyngor ers 48 mlynedd.

17 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

18 **CYNLLUN GWAITH 2016-2017**

Nododd y cadeirydd mai ei fwriad oedd cydbwyso'r cynllun gwaith gyda rhaniad 50% rhwng materion Gwrthdlodi a Chymunedau a Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf.

Nododd fod yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref yn cynnwys Mentrau Bwyd (Chris Sivers a Chris Williams yn bresennol) a'r camau gweithredu dros ben a ddeilliodd o'r cyflwyniad ar y Strategaeth Ynni (12 Mai, 2016).

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf fod Mentrau Bwyd yn fater trawsbynciol a oedd yn cynnwys y ddau bortffolio.

Cyfeiriodd y cadeirydd at faterion dros ben o ran y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016:

a) Mae cydweithwyr o Is-adran yr Uned Trechu Tlodi'n gweithio gydag aelodau o Benderi i ddatblygu cyflwyniad ar y gwaith datblygu cymunedol maent wedi ymgymryd ag ef a chyflwyno'r canfyddiadau i bob aelod fel rhan o raglen hyfforddi;
b) Mae'r pwyllgor yn archwilio'r strategaeth at ddefnydd adeiladau cymunedol;
c) Mae'r pwyllgor yn darparu arsylwadau ar addewid y gweithiwr ynghylch gwirfoddoli yn ystod y broses ymgynghori;
ch) Bydd y pwyllgor hefyd yn ymchwilio i weithgareddau trechu tlodi mewn awdurdodau lleol eraill ac yn rhannu'r rhain â'r Cyng. Evans;
d) Bydd Pennaeth Tlodi a'i Atal yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb canlyniadau ac yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet yn y dyfodol.

Nododd fod cyn-Bennaeth Tlodi a'i Atal wedi awgrymu y dylai'r pwyllgor archwilio'r pynciau a grybwyllwyd uchod. Fodd bynnag, byddai Jane Whitmore yn bresennol yn y cyfarfod ar 20 Hydref, 2016 i gynghori a oedd angen archwilio'r materion uchod o hyd. Gofynnir i Ms Whitmore hefyd a oes swyddog ar gael i gefnogi'r pwyllgor mewn perthynas â'r materion uchod.

Teimlai'r cadeirydd fod prinder Swyddogion Gwrth-dlodi ar gael i fynd i'r cyfarfod a chefnogi'r pwyllgor. Cyfeiriodd at ddigwyddiad pan oedd swyddog wedi mynd i gyfarfod y pwyllgor ar ôl cyfaddef nad oedd wedi darllen y papur ac nad oedd wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod. Yn ogystal, roedd cyfarfod wedi cael ei ganslo ym mis Awst gan nad oedd Swyddog Gwrthdlodi ar gael.

Nododd fod y Strategaeth Trechu Tlodi (a fu'n eitem a awgrymwyd ar gyfer y pwyllgor) wedi cael ei throsglwyddo i Banel Ymchwiliad Craffu. Roedd hyn wedi arwain at y rhestr o eitemau a awgrymwyd gan gyn-Bennaeth Tlodi a'i Atal yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2016. Er ei fod yn anfodlon ar y canlyniad hwn, roedd wedi cytuno, gyda chefnogaeth y pwyllgor, i dderbyn yr eitemau a awgrymwyd gan gyn-Bennaeth Tlodi a'i Atal.

Dosbarthodd y cadeirydd gopïau o e-bost gan Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi a Chymunedau. Cynigiodd yr e-bost y dylai'r pwyllgor ymgymryd â darn brys o waith mewn perthynas â dogfen gan Sefydliad Joseph Rowntree o'r enw ‘We can Solve Poverty in the UK’. Roedd Aelod y Cabinet wedi gofyn i'r pwyllgor gyflwyno argymhellion ar ôl dadansoddi'r ddogfen.

Awgrymodd y cadeirydd y dylid trafod dogfen Sefydliad Joseph Rowntree pan ddaw Ms Whitmore i'r cyfarfod ar 20 Hydref, 2016 ac y dylai geisio arweiniad gan Aelod y Cabinet ynglŷn â natur frys y darn o waith.

Cyfeiriodd y cadeirydd at faterion dros ben y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod ar 12 Mai, 2016:

a) Dylid sefydlu Grwpiau Tasg a Gorffen i archwilio biomas, ffermydd gwynt, cwmnïau ynni, mesuryddion trydan deallus a storio;
b) Bod aelodaeth y grwpiau tasg a gorffen yn cynnwys Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau, Aelodau a Swyddogion perthnasol;
c) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn dosbarthu manylion cwmnïau ynni i aelodau'r pwyllgor;
ch) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn gwneud unrhyw gysylltiadau perthnasol â Phwyllgorau Cynghori'r Cabinet eraill, gan adrodd yn ôl i'r pwyllgor;
d) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn ailddiffinio'r cynllun gweithredu o ran materion y'u hystyriwyd yn rhai 'blaenoriaeth isel’.

O ran y grwpiau tasg a gorffen arfaethedig y cyfeiriwyd atynt uchod yn (a), nododd y cadeirydd yr hoffai wahodd Keith Ross, Frack-Free Wales, i gymryd rhan.

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf ei bod yn croesawu cyfraniad aelodau cyffredin.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** materion y cynllun gwaith.

## 19 STRATEGAETH RHAGOR O GARTREFI

Cyflwynwyd y Strategaeth Rhagor o Gartrefi gan David Evans (Rheolwr Busnes Tai), gyda chymorth Carol Morgan, Swyddog Datblygu Rhagor o Gartrefi.

Nododd y cyflwyniad:

- Ddiben y strategaeth;
- Nod darparu rhagor o gartrefi cyngor;
- Y cyd-destun ariannol;
- Anghenion tai;
- Y cyflenwad tir;
- Nod cefnogi cartrefi a chymunedau cynaliadwy;
- Y cynlluniau peilot;
- Yr opsiynau datblygu; a'r
- Camau nesaf.

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf nad oedd canlyniadau'r cynllun peilot, a fu'n archwilio costau'r Gwasanaethau Adeiladau ac

Eiddo Corfforaethol (GAEC), wedi cael eu derbyn. Roedd cyflwyno'r Cynllun Hawl i Brynu ym 1996 wedi lleihau stoc tai'r cyngor o 3,891 a byddai'n cymryd peth amser i adfer y nifer hwnnw. Byddai'n haws i'r GAEC ymwneud â safle â chartrefi a oedd yn dai cyngor i gyd ac mae'n bwysig asesu a oes gan y GAEC y gallu i adeiladu tai ar gyfer daliadaethau defnydd cymysg. Byddai angen rheoli'r cynllun mewn modd creadigol ac eglur.

Nododd y cadeirydd fod methu adeiladu tai fforddiadwy wedi bod yn bryder cynyddol ers peth amser a bod angen canolbwyntio ar hyn yn y dyfodol. Gellid ystyried opsiynau eraill os nad oedd y GAEC mewn sefyllfa (oherwydd Safon Ansawdd Tai Cymru hyd at 2020) i ymrwymo i gynlluniau. Roedd y fath opsiynau'n cynnwys defnyddio sefydliadau sy'n adeiladu cartrefi a chartrefi marchnad i'w gwerthu ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddatblygwyr.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd y Rheolwr Busnes Tai'r canlynol:

- Byddai unrhyw dai cyngor newydd yn gorfod cydymffurfio â'r un polisi rhent a chytundebau tenantiaeth â'r stoc presennol;
- Roedd yr ymchwiliad i ‘gwmnïau hyd braich’ wedi'i chynnwys yn y strategaeth. Er y gallai fod cyfleoedd ariannu trwy ddefnyddio'r cwmnïau hyn, byddai angen ystyried unrhyw gyfyngiadau bwlch benthyca CRT.
- Byddai'r gofyniad i fwyafu canran y cartrefi i'w hadeiladu at ddefnydd y cyngor yn hanfodol;
- Roedd y strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau eraill y cyngor. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cynnar a byddwn yn ymgynghori â nhw ymhellach ynghylch y cynllun datblygu manwl;
- Roedd y term ‘tai fforddiadwy’ yn disgrifio tai sy'n cael eu gosod neu eu gwerthu yn is na rhent neu werth y farchnad. Fodd bynnag, mae costau adeiladu'n debyg beth bynnag y ddaliadaeth yn y pen draw ac, oherwydd safonau'r llywodraeth, gallai costau fod yn uwch am dai fforddiadwy. Felly, i fod yn gynllun dichonadwy, mae angen cymorthdalu cynlluniau tai fforddiadwy a allai fod ar ffurf gwerthoedd tir is a/neu gymhorthdal gan y llywodraeth i helpu i dalu am rai o'r costau;
- Mae rhagolygon y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer cyfnod o 30 mlynedd;
- Yr amcan fydd mwyafu manteision i'r gymuned a sicrhau y cydymffurfir â chynllun ‘Y Tu Hwnt i Frics a Morter’ y cyngor, ni waeth pwy sy'n ymgymryd â'r datblygiad;
- Mae cyflwyno polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo rhenti tai cymdeithasol yn darparu elfen o gysondeb i landlordiaid tai cymdeithasol, gan gynnwys cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;
- Mae'r terfyn ar fenthyca'n derfyn ar gyfer Cymru gyfan a bennir gan y Trysorlys. Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cynyddu'r terfyn;
- Mae'r strategaeth yn cyfrifo y gellid darparu £6m i'w wario erbyn 2020 ond gallai fod angen diwygio rhagdybiaethau yn y Cynllun Busnes CRT os oes newid yn y polisi rhentu a/neu mae effaith diwygiadau lles yn fwy difrifol. Mae cyd-drafod unrhyw gyfraniad gan ddatblygwr at dai fforddiadwy yn fater polisi cynllunio; ac
- Mae risgiau masnachol yn gysylltiedig â datblygiadau adeiladu sydd i'w gwerthu y mae angen eu hystyried ac os yw hyn yn cynnwys gwerthu eiddo wedi'u hadeiladu trwy ddefnyddio cyllid CRT, byddai angen adennill cost lawn y cynllun

ynghyd â gwerth y tir oherwydd bod clustnodi'n golygu na all y cyfrif gymorthdalu'r pris prynu.

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf, fod tir yn cael ei ystyried ym mhob ardal er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu'n gyflym ac yn effeithlon wrth ystyried anghenion y gymuned ar yr un pryd. Byddai pob safle'n cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun a nod y cyngor fyddai caffael nwyddau/gwasanaethau'n lleol. Ailadroddodd yr angen i ddatblygu cynllun gweithredu ac amserlenni.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid nodi'r cyflwyniad; ac
2. y dylai'r cadeirydd ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlygu: canran y tai fforddiadwy sy'n angenrheidiol ar gyfer cynlluniau'r dyfodol; yr effaith ddymbel (pwysau ar y ddwy ochr) sy'n gysylltiedig â darparu llety addas (fflatiau un neu ddwy ystafell wely); y dylid rhoi grantiau tai cymdeithasol i awdurdodau lleol; y dylid datblygu cynllun gweithredu ac amserlenni i olrhain cynnydd; y dylid ailystyried cynlluniau cyfraniad datblygwyr a'r angen i fod yn uchelgeisiol wrth gyflwyno'r strategaeth ynni a thlodi tanwydd i'r sector preifat trwy'r cynllun.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.46 pm

**CADEIRYDD**